

Annwyl Rieni/Gofalwyr

Diolch am eich cefnogaeth, eich dealltwriaeth a'ch amynedd dros y pedwar mis diwethaf. Rwy'n ddiolchgar i chi am bopeth rydych chi wedi'i wneud i helpu'ch plentyn i ddysgu, ac i helpu'r ysgol a'r awdurdod lleol yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Bydd y llythyr hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am y trefniadau ym mis Medi 2020 pan fydd eich plentyn/plant yn dychwelyd i'r ysgol. Ar ôl i'r Gweinidog Addysg gyhoeddi'n ddiweddar y bydd ysgolion yn ailagor, mae'r awdurdod lleol wedi bod yn awyddus i weithio gydag ysgolion a rhieni/gofalwyr i wneud yn siŵr bod yr holl ddisgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi cyn gynted ag y bydd hynny'n ymarferol bosibl.

Bydd holl ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr ar agor i **staff yn unig** rhwng dydd Mawrth 1 Medi a dydd Iau 3 Medi (gan gynnwys y ddau ddyddiad). Bydd hyn yn caniatáu i staff gynllunio ac ad-drefnu'r ysgol yn barod ar gyfer y disgyblion.

Cofiwch **na fydd** ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr **ar agor i ddisgyblion** yn ystod y cyfnod hwn.

O ddydd Gwener 4 Medi ymlaen, bydd grwpiau blwyddyn penodol yn dechrau dychwelyd i'r ysgol. Mae'r tabl isod yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y disgyblion a fydd yn dychwelyd i **YG Bro Ogwr** o ddydd Gwener 4 Medi.

Diwrnod Ysgol Amser dechrau a gorffen	Gwener 4 Medi	Llun 7 Medi
Dechrau: 09.00 Diwedd: 15.30	Disgyblion Derbyn a Blwyddyn 6 yn unig (Cytunteb ysgolion BCBC)	Pob disgybl o'r dosbarth Derbyn a Blynyddoedd 1-6 yn yr ysgol

Yn unol â'r trefniadau arferol, bydd grwpiau o blant meithrin yn dechrau'r ysgol ar wahanol adegau. Bydd cynnig i ddisgyblion Meithrin YG Bro Ogwr ddod ar ymweliad 'chwarae' mewn grwpiau bach yn ystod yr wythnos Llun 7 Medi, ymweliad byr gyda chyfle i rannu a derbyn gwybodaeth rhwng rhieni a staff. Yna bydd dychwelyd fesul cam yn dechrau o ddydd Llun 14 Medi. Mwy o fanylion i ddilyn o YG Bro Ogwr yn ôl trefniadau Meithrin.

I gloi, hoffwn ddiolch i chi i gyd, unwaith eto, am eich cymorth parhaus ar adeg anodd iawn.

Gobeithio y cewch chi i gyd gyfle i fwynhau gwyliau'r haf ac edrychaf ymlaen at weld y disgyblion yn ôl yn yr ysgol fis Medi.

Yn gywir



Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)

Cyfarwyddwr Corfforaethol – addysg a Chymorth i Deuluoedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr